**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Y Pwyllgor Busnes**

**Tachwedd 2019**

# Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried Cyllideb 2020 – 2021

1. Ar 5 Gorffennaf 2019, ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at y Pwyllgor Busnes gyda dyddiadau arfaethedig ar gyfer cyhoeddi Cyllideb Ddrafft 2020-21, yn unol â Rheol Sefydlog 20.2.

2. Ar 16 Gorffennaf, yn unol â Rheol Sefydlog 20.4, wedi iddo ymgynghori â'r Pwyllgor Cyllid, lluniodd y Pwyllgor Busnes amserlen er mwyn ystyried cyllideb 2020-21.

3. Ar 24 Medi 2019, yn unol â Rheol Sefydlog 20.6, ac wedi ymgynghori â'r Pwyllgor Cyllid, diwygiodd y Pwyllgor Busnes yr amserlen ar gyfer ystyried cyllideb 2020-21.

4. Ar 7 Tachwedd 2019, yn unol â Rheol Sefydlog 20.6, diwygiodd y Pwyllgor Busnes yr amserlen ar gyfer ystyried cyllideb 2020-21 unwaith eto, fel a ganlyn:

| | **Dyddiad** |
|---|---|
| **Gosod cynigion amlinellol ar gyfer cyllideb y Llywodraeth** | 16 Rhagfyr 2019 |
| **Gosod cynigion manwl ar gyfer cyllideb y Llywodraeth** | 16 Rhagfyr 2019 |

| | |
|---|---|
| **Y dyddiad cau i'r Pwyllgor Cyllid gyflwyno adroddiad ar gynigion amlinellol cyllideb y Llywodraeth** | 31 Ionawr 2020 |
| **Y dyddiad cau i'r pwyllgorau eraill gwblhau eu hystyriaeth o'r cynigion manwl ar gyfer y gyllideb** | 31 Ionawr 2020 |
| **Cyflwyno cynnig y gyllideb flynyddol** | 3 Mawrth 2020 |